OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 361

# Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) Cerbydau a Symudwyd Ymaith (Cymru) 2013

**Dyletswydd awdurdod gorfodi y gwneir sylwadau iddo**

**4.**—(1) Caiff yr awdurdod gorfodi ddiystyru unrhyw sylwadau o dan reoliad 3 sy'n dod i law ar ôl diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad pan hysbysir y person sy'n gwneud y sylwadau o dan reoliad 3(2) o'i hawl i wneud sylwadau.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (1), os gwneir sylwadau iddo yn unol â rheoliad 3(4), rhaid i'r awdurdod gorfodi, cyn diwedd y cyfnod o 56 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y daw'r sylwadau i law—

(a) ystyried y sylwadau hynny ac unrhyw dystiolaeth ategol y mae'r person sy'n eu gwneud yn eu darparu; a

(b) cyflwyno i'r person hwnnw hysbysiad o'i benderfyniad p'un a yw'n derbyn—

(i) bod sail a bennwyd yn rheoliad 3(5) yn gymwys; neu

(ii) bod rhesymau grymus o'r fath y cyfeiriwyd atynt yn rheoliad 3(4)(b).

(3) Pan fo awdurdod yn cyflwyno hysbysiad o dan baragraff (2)(b)(i) ei fod yn derbyn bod sail a bennwyd yn rheoliad 3(5) yn gymwys, rhaid iddo (pan fydd yn cyflwyno'r hysbysiad hwnnw)—

(a) ad-dalu unrhyw symiau—

(i) yr oedd yn ofynnol i'r person y rhyddhawyd y cerbyd iddo dalu o dan adran 101A(1) o Ddeddf 1984; neu

(ii) a ddidynnwyd oddi wrth yr enillion o werthiant y cerbyd yn unol ag adran 101A(2) o'r Ddeddf honno,

ac eithrio i'r graddau (os oes rhai) y talwyd neu y didynnwyd y symiau hynny'n briodol; a

(b) hysbysu'r person sy'n gwneud sylwadau ei fod wedi ildio ei hawl i adennill unrhyw swm a allai fel arall fod wedi bod yn ddyledus iddo drwy dâl cosb neu oherwydd symud y cerbyd ymaith, ei storio neu ei waredu.

(4) Pan na fo awdurdod yn cyflwyno hysbysiad o dan baragraff (2)(b)(i) ond yn cyflwyno hysbysiad o dan baragraff (2)(b)(ii) ei fod yn derbyn bod rhesymau cryf o'r fath, rhaid iddo (pan fydd yn cyflwyno'r hysbysiad hwnnw)—

(a) ad-dalu'r symiau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (3)(a) neu'r rhai hynny y mae'n ystyried sy'n briodol yn amgylchiadau'r achos; a

(b) hysbysu'r person sy'n gwneud sylwadau ei fod wedi ildio ei hawl i adennill unrhyw swm a allai fel arall fod wedi bod yn ddyledus iddo drwy dâl cosb neu oherwydd symud y cerbyd ymaith, ei storio neu ei waredu.